Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | D W Helliwell | B Hopkins |
| L R Jones | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Rheolwr y Gwasanaeth Ffyniant a Lles Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C R Doyle a/ac L V Walton

---

## 55 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 56 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.

## 57 Llythyrau'r Cyngor at Breswylwyr. (Llafar)

Rhoddodd Joanne Portwood, y Swyddog Strategaeth a Pholisi, gyflwyniad i'r pwyllgor ar lythyrau'r cyngor at breswylwyr. Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Llythyrau'r cyngor - defnyddio Saesneg clir, iaith hawdd ei darllen a'r Ddamcaniaeth Hwb i wella cyfathrebu;
- Yr Angen am Newid;
- Manteision newid;
- Enghreifftiau o effaith llythyrau sydd wedi'u hysgrifennu'n wael;
- Arfer da: Saesneg clir;
- Arfer da: Fersiwn hawdd ei darllen;

- Damcaniaeth Hwb;
- Enghraifft 1: Wedi'i threialu gan CThEM;
- Enghraifft 2: Cyngor Bwrdeistref Colchester;
- Enghraifft 3: Cyngor Wigan;
- Camau nesaf.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Symleiddio'r neges a gwella edrychiad y llythyrau gydag e.e. gwaith celf;
- Yr angen i wneud llythyrau'n haws i'w deall ac edrych ar lythyrau enghreifftiol a anfonwyd gan y cyngor;
- Sut mae peidio â deall llythyrau'n arwain at breswylwyr yn cael eu herlyn;
- Sut mae Shelter Cymru wedi nodi problem preswylwyr yn cael eu herlyn ac am fynd i'r afael â'r sefyllfa a sut gallai newid i eirio symlach osgoi erlyniadau, costau llys a dyled.

**Penderfynwyd:** -

1) Y byddai'r Adran Cyllid yn darparu cyflwyniad sy'n rhoi enghreifftiau o lythyrau sy'n cael eu hanfon at breswylwyr;
2) Bydd Rheolwr y Gwasanaeth Lles a Ffyniant Oedolion yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar drafodaethau â Shelter Cymru a'r Adran Tai ac yn darparu llythyrau enghreifftiol i'w hystyried.

## 58 Hawliau dynol Dinas a Sir Abertawe. (Llafur)

Rhoddodd y Cynghorydd Mo Sykes ddiweddariad i'r pwyllgor am gynnydd ynghylch Abertawe'n dod yn Ddinas Hawliau Dynol. Rhoddodd ddiweddariad a oedd yn cynnwys y diffiniad o Ddinas Hawliau Dynol, ei chenhadaeth a'i hamcanion. Roedd hefyd yn amlygu'r datganiad ar gyfer Dinas Efrog, y bobl a oedd yn ymwneud â hyn, yr hyn yr oeddent yn ei wneud a phedair elfen allweddol eu strategaeth.

Amlygwyd yr ystyriaethau ar gyfer Abertawe hefyd, gan gynnwys yr agenda weithredu a oedd yn manylu ar y canlyniadau a'r adnodau angenrheidiol.

Dywedodd os oedd Abertawe'n dymuno bod yn Ddinas Hawliau Dynol y byddai'n gorfod gwneud pethau'n wahanol ac roedd angen ymrwymiad lefel uchaf yr awdurdod.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Yr angen i gyflwyno datganiad o genhadaeth trosgynnol;
- Ysgolion yn edrych ar y mater Hawliau Dynol, gofyn iddynt amlinellu'r hyn y dylai Dinas Hawliau Dynol fod a thrafod y mater yn uniongyrchol ag un o ysgolion Abertawe;
- Cynnwys grwpiau/unigolion eraill yn Abertawe a'u cynnwys mewn trafodaethau;
- Trafod y mater â grwpiau swyddogion yn y cyngor:
- Cabinet /Tîm Rheoli Corfforaethol yn ymrwymo iddo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Mo Sykes am ddarparu ei hadroddiad.

**Penderfynwyd:** -

1) Y bydd Rheolwr y Gwasanaeth Lles a Ffyniant Oedolion yn drafftio llythyr at y Cabinet/TRhC ac yn ei gylchredeg i'r pwyllgor er mwyn ei gymeradwyo;
2) Ymchwilio ymhellach i'r syniad o drefnu ymweliad ar y cyd gyda'r Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau ag un o ysgolion Abertawe.

**59 Cynllun Gwaith 2018-2019.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

Darparodd Rheolwr y Gwasanaeth Lles a Ffyniant Oedolion ddiweddariad ar y cynnydd ynghylch Benthyca Llog Uchel. Amlinellodd y camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Benthyca Llog Uchel.

Tynnodd sylw at y ffaith bod cynghorwyr wedi gofyn am hyfforddiant ymwybyddiaeth o fenthycwyr arian didrwydded/ymwybyddiaeth o weithredoedd twyllodrus ychwanegol.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y Cynllun Gwaith diweddaredig ar gyfer 2018-2019;
2) Y bydd Rheolwr y Gwasanaeth Lles a Ffyniant Oedolion yn cylchredeg crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Gweithredu Benthyca Llog Uchel;
3) Ymchwilio ymhellach i'r opsiynau ar gyfer hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o fenthycwyr arian didrwydded/ymwybyddiaeth o weithredoedd twyllodrus.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.00 pm

**Cadeirydd**